# Rhoi meddyginiaeth i blant

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth roi meddyginiaeth i blant. Mae'r safon yn cynnwys defnyddio meddyginiaeth gan gynnwys caniatâd, paratoi, rhoi meddyginiaeth, yn ogystal â rhoi arferion ar waith i sicrhau bod cyflenwadau meddyginiaeth yn cael eu derbyn, eu storio, eu dychwelyd a'u gwaredu'n ddiogel.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill mewn perthynas â rhoi meddyginiaeth i blant
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am roi meddyginiaeth i blant
3. gweithio mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd i gadarnhau sut, ble a phryd y bydd meddyginiaeth yn cael ei rhoi a chael caniatâd i wneud hynny
4. gweithio mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd i gadarnhau'r adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen ar gyfer rhoi meddyginiaeth
5. annog a chefnogi plant a theuluoedd i ofyn cwestiynau a mynegi eu barn neu bryderon mewn perthynas â rhoi meddyginiaeth
6. sicrhau bod y feddyginiaeth yn ei chynhwysydd gwreiddiol a bod label fferyllfa glir arni gyda'r enw, y dos, y dyddiad dod i ben ac unrhyw ofynion penodol
7. dilyn dulliau atal a rheoli heintiau ar gyfer defnyddio meddyginiaeth, a chefnogi plant i wneud hynny
8. cadarnhau pryd y rhoddwyd meddyginiaeth ddiwethaf a'r dos a roddwyd
9. gwirio'r enw, y feddyginiaeth, y dos, y llwybr a'r amser, ac yna paratoi'r feddyginiaeth
10. paratoi'r amgylchedd a'r cyfarpar sydd ei angen i roi'r feddyginiaeth
11. defnyddio dulliau cyfathrebu effeithiol i roi cefnogaeth a sicrwydd wrth roi meddyginiaeth i blant
12. gwylio bod meddyginiaeth yn cael ei chymryd a chadw llygad rhag ofn y bydd unrhyw adwaith
13. storio neu ddychwelyd meddyginiaeth yn unol â gofynion y feddyginiaeth benodol a'r gweithle
14. gwaredu neu ddychwelyd meddyginiaeth sydd heb gael ei defnyddio neu sy'n hen
15. rhoi gwybod i deuluoedd neu eraill sydd angen cael gwybod am roi meddyginiaeth
16. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer rhoi meddyginiaeth i blant
17. Meddyliwch ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth roi meddygniniaeth i blant

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am roi meddyginiaeth i blant, a sut mae adolygu'r wybodaeth honno
2. y mathau cyffredin o feddyginiaeth i blant a'u defnydd cyffredinol
3. y gwahanol ddosbarthiadau o feddyginiaeth a'r goblygiadau o ran storio, defnyddio a gwaredu'n ddiogel
4. y llwybrau y gellir eu defnyddio i roi meddyginiaeth yn y corff
5. gwahanol ffurfiau meddyginiaeth
6. pwysigrwydd dysgu a datblygu wrth roi meddyginiaeth i blant, a'r risgiau posibl os nad oes gan rywun y sgiliau i wneud hynny
7. oedran cydsynio plant ar gyfer triniaeth feddygol ac ystyriaethau capasiti
8. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar roi meddyginiaeth i blant
9. rôl caniatâd rhieni o ran rhoi meddyginiaeth i blant a phwy sydd â chyfrifoldeb rhiant
10. pam y dylid rhoi terfyn amser ar ganiatâd ar gyfer meddyginiaeth
11. sut mae asesiadau risg yn gallu cael eu defnyddio i gefnogi annibyniaeth plant o ran rhoi meddyginiaeth
12. dylanwad diwylliant a chefndir ar roi meddyginiaeth i blant
13. y gofynion wrth roi meddyginiaeth newydd am y tro cyntaf
14. ystyriaethau ychwanegol ar gyfer meddyginiaethau sydd i gael eu rhoi yn ôl yr angen
15. yr adnoddau a'r cyfarpar a all helpu wrth roi meddyginiaeth
16. y mathau o dechnoleg ddigidol a all gefnogi wrth roi meddyginiaeth i blant
17. sut mae defnyddio technegau di-gyffwrdd wrth baratoi meddyginiaeth
18. rhagofalon hylendid a chanlyniadau posibl peidio â'u dilyn wrth roi meddyginiaeth
19. sut mae cefnogi plant a theuluoedd i ddeall y rheswm dros ragofalon hylendid
20. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi plant wrth roi meddyginiaeth
21. sut mae rhoi cymorth a chysur i blant wrth roi meddyginiaeth a delio ag unrhyw heriau ymarferol
22. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth roi meddyginiaeth i blant
23. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth roi meddyginiaeth

24. sut mae adnabod a delio ag adwaith neu argyfwng iechyd wrth roi meddyginiaeth
25. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer rhoi meddyginiaeth i blant
26. theorïau sy’n berthnasol i roi meddyginiaeth i blant
27. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer rhoi meddyginiaeth i blant
28. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth roi meddyginiaeth i blant
29. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill wrth roi meddyginiaeth i blant
30. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth roi meddyginiaeth i blant, a sut i fynd i'r afael â hyn
31. rôl goruchwyliaeth, myfyrio, a dysgu a datblygu wrth roi meddyginiaeth i blant

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

# Rhoi meddyginiaeth i blant

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD364 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Rhoi Meddyginiaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |